

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd nos Lun 19/5/2014 ac nos Iau 29/5/2014
Minutes of the meetings held on Monday evening 19/5/2014 and Thursday evening 29/5/2014

Presennol / Present (19/5/2014):

Mr Elfed Jones	Mr Ricky Hughes	Mrs Marilyn Hughes
Mrs Carys Davies	Mr Derek Owen	Mr Jack Longman
Mrs Julia Dobson	Mr Dei Owens	Mr David Livingstone
Mrs Rose Griffiths		

Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng / Cllr Wil Hughes Cyng / Cllr Aled M Jones

Yn Bresennol / In Attendance:

Mrs Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk) Miss Eira Parry (Cyfieithu / Translation)

Ymddiheuriadau / Apologies:

Mr Tony Hughes

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Elfed Jones, a nodwyd mai dyma'r tro diwethaf y bydd yn annerch yr aelodau fel Cadeirydd y Cyngor.

All present were welcomed to the meeting by Elfed Jones, and it was noted that this was the last time he would address the Council as Chair.

2 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd / Election of Chair and Vice Chair

Cadeirydd –

- Cynnigwyd Derek Owen yn Gadeirydd, cynnig gan Elfed Jones, eilwyd gan Marilyn Hughes a David Livingstone.
- Cynnigwyd Tony Hughes yn Gadeirydd ond cafwyd wybod nad oedd ganddo ddiddordeb yn y swydd.
- Roedd pawb ond un aelod yn hapus i Derek Owen gymryd y Gadair ac fe dderbyniodd y swydd.

Is-gadeirydd –

- Cynnigwyd Elfed Jones yn Is-gadeirydd gan fod ganddo brofiad eang o weithio o fewn y Cyngor a'r gymuned. Cynnigwyd gan Dei Owens, eilwyd gan Jack Longman a Rose Griffiths. Roedd pawb ond un aelod yn hapus ac fe dderbyniodd y swydd.

Fe gymerodd Cyng Wil Hughes y cyfle i longyfarch y Cadeirydd newydd, ac i ddymuno'r gorau iddo yn ei swydd. Fe ddiolchwyd hefyd i Elfed Jones am ei waith fel Cadeirydd y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

Chair –

- *Derek Owen was proposed as Chairman, proposed by Elfed Jones, seconded by Marilyn Hughes and David Livingstone.*
- *Tony Hughes was proposed as Chairman, but it was understood that he was not interested in the position.*
- *All bar one member was happy for Derek Owen to take to the Chair and he accepted the position.*

Vice-chair –

- *Elfed Jones was proposed as Vice-chair as he has experience of working within the Council and the community. Proposed by Dei Owens, seconded by Jack Longman and Rose Griffiths. All bar one member was happy for Elfed Jones to be Vice Chair and he accepted the position.*

Cllr Wil Hughes took the opportunity to congratulate the new Chairman and to wish him the best

in his new position. He also thanked Elfed Jones for his work as Chair of the Council over the last few years.

**Fe gadeiriwyd y cyfarfod o hyn allan gan Derek Owen /
The meeting from here on was chaired by Derek Owen.**

3 Is-bwyllgorau a Chynrychiolaeth / Sub-committees and Representation

Cytunwyd y byddai aelodaeth yr is-bwyllgorau a chynrychiolaeth ar bwyllgorau eraill i'w gadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

It was agreed that the membership of sub-committees and representation on different panels be confirmed at the next meeting.

4 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dei Owens – Mynwent y Rhyd Cemetery
Carys Davies – Cronfa Padrig

5 Cofnodion y Cyfarfod diwethaf (14/4/2014) / Minutes of the last meeting (14/4/2014)

Roedd tri pwynt i'w nodi o'r cofnodion –

4.2 - Roedd Julia Dobson am nodi ei bod yn anhapus iawn a'r ffordd cafodd materion Nant y Dyfrgi eu trafod yn y cyfarfod diwethaf. Mae wedi ysgrifennu llythyr o gwyn at y clerc, ac yn deall bod ei gynnwys wedi ei rannu a'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd (Elfed Jones a Ricky Hughes). Bydd yn ymateb at sylw'r clerc yn unig.

5.6 – Bydd angen cadarnhau gyda'r cyfrifydd os oes angen cofrestru Rhian Whitehead yn gyflogedig gan y Cyngor am ei gwaith gyda'r Fynwent.

9.1 – Cafwyd ddeall na fydd Ty Baner na Park Lodge yn cael ei dymchwel ar unwaith gan fod ystlymod yn yr adeiladau.

Cynnigwyd bod y cofnodion yn gywir gan Dei Owens, eilwyd gan David Livingstone.

Three points were to be noted from the minutes –

4.2 – Julia Dobson wished to note that she was dissatisfied with the way in which matters relating to Nant y Dyfrgi were discussed. She has written a letter of complaint to the Clerk and understands that both the Chair and Vice Chair are aware of its content (Elfed Jones and Ricky Hughes). She will respond to the Clerk only.

5.6 – The accountant will need to confirm whether Rhian Whitehead needs to be registered as a Council employee for her work with the Cemetery.

9.1 – It was understood that the demolition of Ty Baner and Park Lodge has been delayed due to bats inhabiting the buildings.

It was proposed that the minutes were a true record by Dei Owens, seconded by David Livingstone.

6 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

6.1 Mynwent y Rhyd Cemetery

Cafwyd ebost gan Thomas Hughes yn amlinellu problemau yn ymwneud a chynllunio system traenio. Cytunwyd y dylid gyfarfod ag o ar y safle eto i drafod sut gellir ddatrys y problem.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf mae Dei Owens wedi bod i glirio y llwybrau a thwtio y fynwent. Deallpwyd bod y gwaith wedi bod llawer iawn mwy na'r disgwyl, a diolchwyd iddo am gadw at ei bris gwreiddiol. Ategwyd y diolch gan Carys Davies gan nodi bod y gwaith wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r Fynwent. Bydd angen cadw'r llwybrau yn glir gyda chwyn-laddwr o hyn allan.

Bydd y sied yn y fynwent yn cael ei drafod gan bwyllgor y pentref.

An email from Thomas Hughes outlined the difficulties regarding the planning of the drainage system for the cemetery. It was agreed to arrange a meeting on site with Thomas Hughes to see how the issue can be resolved.

Following the last meeting, Dei Owens has been to clear the paths and tidy the cemetery. It was understood that the project was a far greater job than anticipated, and he was thanked for keeping to the original price quoted. Carys Davies reiterated by noting that the work had had a positive effect on the cemetery. The paths will need to be maintained (with weed-killer) from now on.

The shed in the cemetery will be discussed by the village sub-committee.

6.2 Toiledau / Toilets

Cafwyd lythyr gan Dewi Williams yn amlinellu costau cynnal toiledau stryd Cemaes am flwyddyn (£8600). Nodwyd bod y toiledau yn brysur iawn ac yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd. Mae £6000 wedi ei glustnodi gan y Cyngor i gynnal toiledau'r traeth. Cytunwyd bod costau cynnal toiledau yn uchel, ond bod angen symud ymlaen i geisio datrys y mater. Buasai codi digon o arian i gynnal y toiledau yn gynydd ar y briseb flynyddol.

Cynnigwyd bod cyfarfod cyhoeddus i drafod y toiledau yn cael ei drefnu. Cynnig gan Julia Dobson, eilwyd gan Carys Davies.

Diolchwyd i'r cynghorwyr sirol am eu gwaith i gadw'r toiledau ar agor hyd yn hyn.

Bydd angen hysbysebu am rywun i edrych ar ol toiledau'r traeth cyn gynted a phosib fel eu bod yn gallu cychwyn unwaith bydd y cyfleusterau yn barod.

Mae £500 y flwyddyn ar gael i fusnesau lleol adael i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau. Efallai y buasai modd i'r Neuadd ac i'r Ganolfan Dreftadaeth gymryd mantais o'r cynllun.

A letter was received from Dewi Williams outlining the annual running costs for the toilets in the street in Cemaes (£8600). It was noted that the toilets are very busy and used by members of the public. £6000 has been allocated by the Community Council towards the running costs of the beach toilets. It was agreed that the running costs were high but the matter needs to be resolved. In order to raise sufficient funds to maintain the toilets, the precept would have to be increased.

It was proposed that a public meeting be arranged to discuss the toilets. Proposed by Julia Dobson, seconded by Carys Davies.

The county councillors were thanked for their support to date.

There is the need to advertise for someone to look after the beach toilets as soon as possible so that they can start their work as soon as the facilities are ready.

£500 per annum is available for local businesses who are willing to open their toilets to the public. It may be possible for the Village Hall and the Heritage Centre to take advantage of this scheme.

6.3 Cae Chwarae Treglele Playing Field

Mae Cyng Wil Hughes wedi cael copiau o'r cynlluniau gwreiddiol ond nid oes son am gae chwarae.

Cllr Wil Hughes has obtained copies of the original plans but there is no mention of a play area.

6.4 Maes Parcio Lon Glascoed Car Park

Nid oedd gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law. Nid oes les wedi ei arwyddo, nac ychwaith pris am brynnu y maes parcio.

No further information had come to hand. No lease has been signed, and no price has been

obtained for the purchase of the car park.

6.5 Archwilio Caeau Chwarae / *Play Area Inspection*

Mae'r clerc wedi paratoi draft ar gyfer polisi diogelwch y caeau chwarae er mwyn ateb gofynnion cyrff ariannu megis Cronfa Padrig. Roedd copiau o'r ddogfen wedi eu dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Dosbarthwyd copiau o hysbyseb am berson cyfrifol i arolygu'r caeau chwarae. Trafodwyd y posibilrwydd o rannu y swydd gyda chymunedau eraill. Penderfynnwyd llungopio 500 o gopiau i'w dosbarthu yn y gymuned. Cytunwyd y dylid gynnwys glanhawr i'r toiledau ar yr un hysbys.

The clerk has prepared a draft play area safety policy in order to meet the needs of funding bodies such as Cronfa Padrig. Copies of the document were distributed to members prior to the meeting.

Copies of an advertisement for a responsible person to inspect and check the play areas were distributed. The possibility of sharing the role with other communities was discussed. It was agreed to photocopy 500 copies to be distributed in the community. It was agreed to include a cleaner for the toilets on the same advert.

6.6 Cronfa Padrig

Cadarnhawyd y dylai Elfed Jones ac Ricky Hughes barhau i gynrychioli y Cyngor ar fwrdd ymddiriedolwyr Cronfa Padrig.

It was agreed that Elfed Jones and Ricky Hughes continue to represent the Council on Cronfa Padrig's board of trustees.

7 Materion Cyllidol / Financial Matters

7.1 Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol / *Internal Auditor's Report*

Darlennwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol John Roberts yn dilyn ei archwiliad diweddar.

The report prepared by internal auditor John Roberts following the recent audit was read out.

7.2 Adroddiad Cyllid 2013/14 *Financial Report*

Dosbarthwyd gopiau o adroddiad Cyllid 2013/14 wedi ei baratoi gan Elizabeth Jones i'r aelodau er gwybodaeth a nodwyd ei gynnwys.

A copy of the 2013/14 financial report prepared by Elizabeth Jones was distributed to all members present and its content noted.

7.3 Ymateb i UHY Hacker Young / *Response to UHY Hacker Young*

Dosbarthwyd gopiau o ddogfen wedi ei baratoi gan Elizabeth Jones mewn ymateb i ofynnion yr archwiliwr allannol (cyfrifon 2012/13) i'r aelodau oedd yn bresennol a nodwyd ei gynnwys. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ac fe arwyddwyd ffurflenni Hacker Young.

Diolchwyd i Elizabeth Jones am ei gwaith.

A copy of a document prepared by Elizabeth Jones in response to the external auditors' requirements (2012/13 accounts) to all members present and its content noted. The financial statements were approved by the Council and the return for Hacker Young signed.

Elizabeth Jones was thanked for her work.

Gan fod amser yn brin, cytunwyd y dylid parhau a'r agenda ar noson arall er mwyn gallu cynnal y cyfarfod agored. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod yn parhau nos Iau Mai 29 am 7 o'r gloch yn y Llyfrgell.

As time was restricted, it was agreed that the agenda should be continued at a later date in order to hold the open meeting. It was agreed that the meeting continue Thursday evening May 29th at 7pm at the Library.

I gloi y cyfarfod, fe ofynnodd Cyng Aled M Jones i gael dweud gair. Fe groesawodd Derek Owen i'r gadair a dymuno'r gorau iddo cyn diolch i Elfed Jones am ei gefnogaeth a'i ymrwymiad i'r gymuned a'i gyfraniad i Gemaes dros y blynyddoedd.

To close the meeting, Cllr Aled M Jones asked to say a few words. He welcomed Derek Owen to the Chair and wished him well before thanking Elfed Jones for his support and commitment to the community and his contribution to Cemaes over the years.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 o'r gloch / The meeting closed at 7.30pm.

Presennol / Present (29/5/2014):

Mr Derek Owen (Cadeirydd / Chair)
Mrs Marilyn Hughes

Mr Elfed Jones
Mrs Rose Griffiths

Mr Ricky Hughes

Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng / Cllr Wil Hughes

Cyng / Cllr Richard Owain Jones

Yn Bresennol / In Attendance:

Mrs Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk)

Miss Eira Parry (Cyfieithu / Translation)

Ymddiheuriadau / Apologies:

Mrs Julia Dobson

Mr David Livingstone

Mr Dei Owens

Cyng / Cllr Aled M Jones

Croesawyd pawb oedd yn bresennol / All present were welcomed

3 Is-bwyllgorau a Chynrychiolaeth / Sub-committees and Representation

Ar ol trafodaeth cadarnhawyd yr is-bwyllgorau canlynol. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn aelodau o'r holl bwyllgorau –

Following discussion the following sub-groups were confirmed. The Chair and Vice Chair are members of all committees –

- Cyllid / Finance

Marilyn Hughes, Tony Hughes, Ricky Hughes, Julia Dobson, David Livingstone

- Pentref / Village

Jack Longman, Dei Owens, Carys Davies, Rose Griffiths

- Cynllunio / Planning

Julia Dobson, Ricky Hughes

- Cae Chwarae / Play Areas

Rose Griffiths, Julia Dobson, Carys Davies

- Cwynion / Complaints

Yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor cyllid, trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu panel i ddelio a chwynion a ddaw at sylw'r clerc. Cytunwyd bod hyn yn syniad da, ac enwebwyd Marilyn Hughes, Julia Dobson, Tony Hughes a David Livingstone ynghyd a'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i fod yn aelodau ohono.

In the last Finance committee meeting, the possibility of establishing a complaints committee was discussed in order to deal with complaints that are brought to the attention of the clerk. It was agreed that this was a good idea and Marilyn Hughes, Julia Dobson, Tony Hughes, David Livingstone, the Chair and Vice Chair were elected as members.

- Goleuadau Nadolig / Christmas Lights

Marilyn Hughes, Rose Griffiths, Jack Longman, Derek Owen

Cynrychiolwyr ar bwyllgorau allanol / Representation on external committees –

Clwb Peldroed Cemaes Football Club – Dei Owens

Clwb Ffitrwydd / Fitness Club – Dei Owens

Cae Chwarae Cemaes Play Field – Rose Griffiths

Cae Chwarae Tregele Play Field – Julia Dobson

Horizon (PLG) – Elfed Jones, Ricky Hughes a/and Derek Owen

Wylfa SSG – Elfed Jones, Ricky Hughes a/and Derek Owen
Tim Rheoli'r Harbwr / *Harbour Management Team* – Jack Longman, Elfed Jones, Dei Owens
Llywodraethwyr yr Ysgol / *School Governors* – Carys Davies, Marilyn Hughes
Cronfa Padrig – Elfed Jones, Ricky Hughes
Un Llais Cymru / *One Voice Wales* – Elfed Jones, Julia Dobson, Ricky Hughes

7.4 Rheoliadau Ariannol / *Financial Regulations*
Mabwysiadwyd y rheoliadau gan y Cyngor Llawn / *The Full Council adopted the regulations..*

8 Croesfan ger yr Ysgol / Crossing by the School

Mae Cyng Wil Hughes wedi bod yn gwneud ymholiadau am groesfan ger yr Ysgol gan fod cerbydau yn gyrru yno. Mae arolwg wedi cymryd lle gan y Cyngor Sir ddiwedd Ebrill/ddechrau Mai ac nid yw cyflymdra y cerbydau yn ddigon i orfod cymryd unrhyw fesuriadau i gadw o fewn y gyfraith. Fe gadarnhaodd y byddai y cynghorwyr sirol yn dal i roi pwysau ar y Cyngor Sir i ddatrys y mater.

Cafwyd wybod bod gwelliannau sylweddol i'r A5025 i ddod, a bod y cynghorwyr sirol eisioes wedi gweld y cynlluniau. Bydd cyfle i gynrychiolwyr o'r cynghorau Cymuned gael golwg ar y cynlluniau yn y dyfodol agos. Mae posibilrwydd y bydd croesfan yn cael ei gynnwys yn rhan o'r prosiect.

Cllr Wil Hughes has been making enquiries about a crossing by the school as vehicles are reported to be speeding. The county council has conducted a speed survey at the end of April/beginning of May and the speeds recorded do not warrant having to take any action in order to keep within the law. He confirmed that the county councillors will continue to pressure the council to address the issue.

It was stated that significant improvements to the A5025 are imminent and that the county councillors have already seen the plans. There will be an opportunity for representatives from the community councils to view the plans soon. There is a possibility for a crossing as part of this project.

9 Grisïau o Marine Terrace a Llwybr o'r Ganolfan Treftadaeth / Steps from Marine Terrace and Path from the Heritage Centre

Mae cyflwr y grisïau a'r llwybr wedi dod i sylw'r Cyngor, ac er bod peth gwaith wedi ei wneud eisioes, mae'r llwybrau yn beryglus. Penderfynnwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broblem (a hefyd anfon copi i'r tri cynrychiolwr). Y Cyngor Sir sty'n gyfrifol am y llwybrau yma.

The condition of the steps and the path has been brought to the attention of the Council, although some work has been done, the paths are dangerous. It was agreed to write to the County Council to raise awareness of the issue (and also to send copies to the three representatives). The County Council are responsible for these paths.

10 Goleuadau Nadoliq / Christmas Lights

Bydd y mater yma i'w drafod gan yr is-bwyllgor newydd. Mae angen goleuadau newydd, ac fe fydd angen sicrhau arian i'w prynu.

This matter will be discussed by the new sub-committee. New lights are required, and funding is needed to purchase them.

11 Gohebiaeth / Correspondence

11.1 Cafwyd llythyr o gwyn am y gloch llanw ac amser a penderfynnwyd dylid trafod y llythyr gan y pwyllgor cwynion.

A letter of complaint has been received with regard to the time and tide bell, and it was agreed for it to be addressed by the complaints panel.

11.2 Cafwyd nodyn gan y Cyngor Sir yn dweud y byddent yn cau un o'r llwybrau cyhoeddus tra bod gwaith ar gwylfan yr harbwr yn cymryd lle. Roedd y gwaith if od wedi ei gwblhau erbyn

Gorffennaf ond ni fydd yn cychwyn nes mis Medi erbyn hyn.

A note was received from the County Council stating that they will be closing one of the footpaths whilst work is ongoing on the harbour viewing area. The work was due to be completed by the end of July but will now not be taking place until September.

- 11.3 Cafwyd llythyr o'r Cyngor Sir yn dweud eu bod yn bwriadu dadgomisiynu y system camerau goruwchwylio. Cafwyd peth trafodaeth am y sefyllfa a'r diffyg ymgynghori ymlaen llaw.

A letter has been received from the County Council stating their intention to decommission the cctv system. Those present discussed the situation and lack of consultation.

- 11.4 Bydd fforwm flynyddol Partneriaeth Cyrchfan Ynys Mon yn cymryd lle dydd Gwener Mehefin 6 yn Neuadd y Dref, Llangefni.

The Destination Anglesey Partnership's annual forum will take place on Friday 6th June in the Town Hall, Llangefni.

- 11.5 Bydd Wythnos Dysgu Oedolion 2014 yn cymryd lle Mehefin 14-22, gyda digwyddiadau dros yr ynys gan gynnwys Llanfechell.

The 2014 Adult Learners' week will take place June 14-22, with activities island wide, including activities in Llanfechell.

- 11.6 Cafwyd ebost gan Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth am ymgynghoriad yn ymwneud a thoiledau cyhoeddus. Bydd digwyddiad yng Nghaernarfon 4/6/2014. Mae angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 24/6/2014.

Trafodwyd y sefyllfa bresennol ynglŷn a thoiledau'r pentref a'r portalws., bydd Cyng Wil Hughes a Cyng Richard Jones yn cyfarfod a Dewi Williams yn fuan i drafod ymhellach

The Welsh Government are consulting on public toilets, with an event taking place in Caernarfon on 4/6/2014. The deadline to respond to the consultation is 24/6/2014.

The current situation regarding the toilets in the village and the portalws was discussed. Cllr Wil Hughes and Cllr Richard Jones will be meeting with Dewi Williams to discuss soon.

- 11.7 Cafwyd ebost gan Adrian Jones o'r Cyngor Sir yn gwahodd cynrychiolaeth o'r Cyngor i gyfarfod i drafod prosiectau posib ar gyfer traeth Cemaes.

An email from Adrian Jones invited representatives from the Community Council to meet to discuss possible projects for Cemaes beach.

12 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

12.1 Lleoli'r Play Pod / Location of Play Pod

Mae Cyng Wil Hughes wedi trafod a Dafydd Rowlands, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu am ddiweddariad.

Cllr Wil Hughes has spoken to Dafydd Rowlands, the clerk was asked to contact him for an update.

12.2 Gwirio CRB Checks

Mae Rose Griffiths ar ddeall bod angen i'r pwyllgorau cae chwarae dalu i gael y tystysgrifau. Gofynnwyd iddi gysylltu a Kevin Hewer (Clwb Pel Droed) am fwy o wybodaeth, gan bod aelodau o'r Cyngor ar ddeall nad oes angen i wirfoddolwyr dalu.

Rose Griffiths has been informed that members of the play area committees need CRB checks and that they need to be paid for. It was suggested that she contacts Kevin Hewer (Football Club) for more information as it is understood that there is no charge for volunteers.

- 12.3 Nant y Dyfrgi
Deallwyd bod y twrniod yn gweithio ar y mater ac bod pethau yn dechrau symyd. Gobeithio bydd mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

It was understood that the solicitors are working on the case and that progress is being made. It is hoped to have more information by the next meeting.

- 12.4 Carnifal / Carnival
Gofynnodd Rose Griffiths os oes modd cael cyfraniad ariannol tuag at y Carnifal eleni. Gofynnwyd i bwyllgor y Carnifal ysgrifennu at y Cyngor yn swyddogol ac y buasai cynnwys y cais ar agenda y cyfarfod nesaf.

Rose Griffiths asked whether it would be possible to give the Carnival a financial contribution this year. The Carnival committee were asked to formally write to the Council and that their request would be considered at the next meeting.

- 12.5 Cysgodfan / Shelter
Mae peth difrod wedi ei wneud i'r gysgodfan yn y parc. Penderfynnwyd gofyn i'r Clwb peldroed os y buasant yn hoffi ei gael gan nad yw yn cael ei barchu yn y parc.

The shelter in the park has been damaged. It was agreed to ask the Football Club if they would like it as it is not respected in the park.

- 12.6 Offer newydd yn y parc / New play equipment
Aethpwyd i'r parc yn dilyn y cyfarfod i weld yr offer chwarae newydd.

Members went to the park following the meeting to see the new play equipment.

- 13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**
Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Mehefin 16, yn y Llyfrgell am 7 o'r gloch.

The next meeting will take place on Monday evening June 16th at 7pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 / The meeting closed at 8.30pm.

CET06/2014